Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 13eg Fedi 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones,, Neil Pringle, Mari E M Mathews, Janet Charlton, Catherine Williams, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Catherine Williams

Datgan diddordeb, Dim datganiad.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2ain Awst 2021

Materion yn codi

(1] Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Eglurodd y clerc fod anawsterau ynglŷn â'r heddlu ymuno a chyfarfod zoom. Y clerc i geisio diweddariad o faterion lleol.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair
Nodwyd bod cyfarfod gyda CADW wedi ei drefnu ar gyfer 15 fed Fedi.

[1.2] Pont –y-Mwynwyr
Cyfeiriodd y Cyng Elisabeth Roberts at yr amserlen ganlynol;
Gosod y contract 20/9/21, Dechrau'r Gwaith 27/9/21, Gorffen y Gwaith 17/12/21

[1.3] Cyngor BS Conwy/Toiledau Ffordd yr Orsaf
Gan nodi bod y toiledau yn cau am 7.00 yh ac yn creu llawer o gwynion yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Steven Teale i [CBS Conwy] drafod trefniadau ar gyfer y flwyddyn nesa.

[1.4 Camerâu Cylch Agos Pentre' Du
Eglurodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Cyngor BS Conwy ynglŷn a costau

[1.5] Siop Climber a Rambler
Dywedodd y Cyng E Roberts nad oedd yr adeilad yn cael ei ystyried fel un nad oedd yn ddiogel, a bod wedi ei gynnwys mewn cynllun gorfodaeth sydd wedi ei anfon i'r Swyddfa Gymreig.

[1.6] Atgyweirio'r Neuadd Goffa
Eglurodd y Cadeirydd, fod adnoddau ar gyfer ardaloedd gwledig yn cael eu cyfeirio i Glasdir ac nid i drefi a phentrefi unigol.

[1.7] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy
Deallwyd bod cyfarfod pellach wedi ei drefnu ar gyfer 16eg o Fedi

[1.8] Caffi ‘r Rheilffordd  Fach
Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Bethan Lloyd [swyddog iechyd yr amgylchedd y Cyngor Sir] ynglŷn â chyflwr y cerbydau cludiant. Nodwyd hefyd bod e-bost pellach wedi ei anfon ar y 17eg Orffennaf ond nad oedd ateb wedi ei dderbyn. Cytunodd y Cyng E Roberts i wneud ymholiadau.

[1.9] Materion Parcio Bro Gethin
Dywedodd y clerc nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Andrew Bowden o Gartrefi Conwy. Y clêrc i anfon gair i’w atgoffa.

[2]  Arwyddion Lleol
Dywedodd y clerc bod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu trefnu arwyddion newydd yn y pentre’. A hefyd mae bwriad i osod giât newydd yng nghwaelod Cae Llan, mae’r gwaith [arwyddion] yn amodol i ganiatâd cynllunio.

[2.1] APCE Plannu Coed
Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts nad oedd yr ysgol yn awyddus i blannu coed. Y clerc i gysylltu gyda Steven Teale ynglun a phlannu ychydig yn y fynwent

[2.2]Llysdyfiant Pont-y-Pair
Dywedodd y clerc fod Cyngor BS Conwy yn bwriadu cael golwg ar y sefyllfa ar y 15fed Fedi

[2.3] Goleuo Glan yr Afon/ Pont-y-Pair
Nodwyd nad oedd rhaid cael caniatâd cynllunio a dim ond ymgynghori hefo CADW

Y Brif Agenda

[2] Materion Cynllunio
**Gosod carreg**

[2.4] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a’r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1/8/21 – 31/8/21
[b] Dywedodd y clerc fod ffigyrau mynediad i’r rhaeadr yn ôl i’r arferol

[2.5] Mynedfa i’r Feddygfa
Gan nodi’r pryder ynglun a diogelwch, y clerc i gysylltu gyda’r feddygfa i geisio iddynt osod arwyddion/ marciau ar y ffordd wrth i foduron adael y feddygfa.

[2.6] Gostwng Cyflymder i 40 m.y.a. ar Allt Dinas
Cyfeiriodd y clerc at gynnig gan yr Asiant Cefnffyrdd osod cyflymder 40mya ar allt Dinas. Penderfynwyd roedd ei angen dim ond gyferbyn a rhan o’r ffordd gyferbyn a thai preswyl yn unig.

[2.7] Casglu Ysbwriel/Baw Cwn/ Ymylon y Ffyrdd ayb.
Dywedodd y Cyng Roberts fod yr arolygwr priffyrdd wedi cytuno i gerdded o gwmpas y pentre’ gyda hi.

[2.8] Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy
Y clerc i gysylltu gyda CNC I gesio iddynt symud y brigau coed ayb, oed wedi casglu ar yr ynys.

[2.9] Mynwent Eglwys Sant Mihangel
Cyfeiriodd y clerc at ymateb y Parch Stuart Elliot yn datgan bod y glaswellt ar fin cael ei dorri, ond fod rhan o'r fynwent wedi ei gosod ar gyfer cynllun gyda Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri i fod yn weirglodd blodau gwyllt.

[3] Betws yn ei Blodau
Penderfynwyd cefnogi cystadleuaeth Betws yn ei Blodau ar gyfer Gwanwyn/Haf 2022 gyda gwobr ariannol am yr arddangosfa orau. Cytunodd y Cyng Neil Pringle I wneud cais am grant o £500.00gyda Network Rail ar gyfer tybiau blodau.Penderfynwyd gwneud cymhariad ariannol i unrhyw grant a dderbyniwyd.

[3.1] Dyn mewn Fan
Cytunodd y Cyng Neil Pringle I baratoi dogfen ar gyfer trafodaeth ynglun a phosibilrwydd y syniad.

[3.2] Tough Runner UK
Cyfeiriodd y clerc at bryderon ynlgun a chystadleuaeth rhedeg 10km pan i gae ym Mhentre' Du gael ei ddefnyddio'n Faes Parcio gyda'r canlyniad o drafferthion wrth ymuno a gadael y cae i briffordd yr A5. Gan nodi na i'r Cyngor Cymuned nag aelod y ward gael rhybudd o'r trefniadau, y clerc i godi'r mater gyda Chyngor BS Conwy a hefyd trefnydd y ras

Gareth Wynne, Cadeirydd